# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **Rhif SF / LF cysylltiedig** (os yw'n berthnasol) | Ddim yn gymwys |
| **Enw'r Gangen:** | Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **Adran:** | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| **Dyddiad:** | 6 Mai 2014 |

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




**Cam 1. Beth yw’r darn o waith a’i amcan(ion)?**

Amcan y gwaith yw cyflwyno deddfwriaeth i greu fframwaith newydd i blant a phobl ifanc 0 – 25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y fframwaith newydd hwn yn disodli’r fframwaith AAA statudol cyfredol a’r darpariaethau cyfredol ar gyfer asesu addysg a hyfforddiant ôl-16 i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

Yr amcan yw cyflawni:
- Fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effethiol;
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Y cynigion allweddol ar gyfer cyflawni’r amcanion uchod yw:
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a fydd yn disodli Datganiadau AAA, asesiadau ôl-16 (o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl-16;
- Ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch Cod Ymarfer ar ADY a'i gyhoeddi, a allai gynnwys gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i’r cyrff perthnasol (sy’n debygol o fod yn awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB, unedau cyfeirio disgyblion, byrddau iechyd lleol a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (y Tribiwnlys)) weithredu’n unol â hwy a chanllawiau y bydd rhaid i’r cyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill dalu sylw dyledus iddynt.
- Nodi'r gofynion lleiaf o safbwynt gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU, a'i gwneud hi'n ofynnol i'r Cod nodi gofynion gorfodol manwl

a fydd yn ategu hyn.

- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi CDU a sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r CDU yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bod ganddo ADY ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i ysgolion a gynhelir, sefydliadau AB ac Unedau Cyfeirio Disgyblion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Datblygu Unigol plentyn neu berson ifanc yn cael ei darparu;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer dysgwyr ôl-16 lle y mae'r CDU yn pennu ei bod yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion plentyn neu berson ifanc;
- Gwahardd lleoli unrhyw blentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol nad yw wedi’i chofrestru i ddarparu’r math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a’u rhieni yn cael eu cynnwys, yr ymgynghorir â hwy ac y gwrandewir ar eu barn o'r dechrau'n deg a chydol y broses asesu a chynllunio sydd ynghlwm wrth y CDU;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i sicrhau bod CDU yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf, a hefyd ei gwneud hi'n bosibl iddynt gael eu cynnal yn gynharach neu'n fwy aml lle y bo hynny'n briodol;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch adnabod plant ag ADY yn gynnar iawn, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau addysg bellach gydweithredu a rhannu gwybodaeth wrth asesu, cynllunio ac wrth gyflawni darpariaeth er mwyn bodloni anghenion dysgu plant a phobl ifanc hyd at 25 oed;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i’r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau a fydd yn cefnogi arferion gwaith effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i ysgolion prif ffrwd ddynodi Cydlynydd ADY.
- Sicrhau bod modd i CDU ddisodli Cynlluniau Addysg Personol neu gyflawni eu swyddogaethau o safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor a hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru sefydlu arweiniad (i awdurdodau) gan gynnwys gofynion gorfodol lle bo angen;
- Ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu trefniadau datrys anghytundebau a’i gwneud yn ofynnol i ddefnyddio prosesau cwynion lleol cyn cyfeirio apêl i’r Tribiwnlys

- Ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol benodi person annibynnol fydd yn hwyluso'r gwaith o ddatrys anghytundebau;
- Sicrhau bod hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdodau lleol;
- Rhoi'r hawl i apelio i unrhyw blentyn neu berson ifanc o oedran ysgol neu'n iau sydd â CDU (neu ei riant) neu sy'n credu y dylai fod ag un; Estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr ôl-16, hyd at 25 oed, sydd ag ADY ac sy'n derbyn neu sy'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.

Bwriedir y caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno yn ystod y Tymor hwn yn y Cynulliad.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Rydym ni'n credu y bydd y cynigion hyn yn sicrhau'r effaith gadarnhaol ganlynol i ddysgwyr o'u geni hyd at 25 oed:

- **creu system gyfartal ac unedig** ar draws yr ystod oedran 0-25 oed, gwahanol ddarparwyr addysg a gwahanol lefelau o angen, gan felly waredu unrhyw anghysondeb ac annhegwch
- **cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol** o asesu'n barhaus, gan alluogi i'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwr unigol ddatblygu dros amser yn unol â'i anghenion newidiol;
- **sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn,** gan roi lle canolog i safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses a'i gynnwys ef a'i deulu wrth asesu, ymyrryd, cynllunio ac adolygu o'r dechrau'n deg;
- **darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor** i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses sydd ynghlwm wrth ADY a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth;
- **osgoi unrhyw ddyblygu** a allai ddeillio o gynlluniau sy'n gwneud yr un peth, i bob pwrpas, ac integreiddio lle y bo'n bosibl gynlluniau ac ymyriadau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- **gwella trefniadau cydweithio** rhwng asiantaethau wrth iddynt gynllunio eu hymyriadau, cytuno ar flaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael yn brydlon i wneud gwahaniaeth;
- **sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd** drwy feithrin partneriaethau mwy cadarn â rhieni a hybu diwylliant o dryloywder a ddylai sicrhau rhagor o ymddiriedaeth rhwng rhieni, darparwyr addysg ac awdurdodau lleol;
- **sicrhau cyn lleied â phosibl o apeliadau** drwy ei gwneud hi'n haws i ddatrys anghytundebau cyn gynted â phosibl;
- **cynnal ac estyn yr hawl i apelio** i'r Tribiwnlys fel y ffordd orau o sicrhau digonolrwydd y gefnogaeth a ddarperir i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, ac nid dim ond y rhai sydd ag anghenion cymhleth.

Caiff effaith unrhyw ddeddfwriaeth ei fonitro a'i fesur drwy ddadansoddiad parhaus o ddata apeliadau, tystiolaeth a gesglir drwy arolygon ffurfiol ac unrhyw ddulliau priodol eraill a ddynodir wrth i'r cynigion gael eu datblygu ymhellach.

Nid ydym wedi dynodi unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc yn codi o'r cynigion hyn.

Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn ymateb yn briodol i'w buddiannau, caiff cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu eu cynnal gyda phlant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn ceisio eu barn yn uniongyrchol. Yn ogystal,

caiff papur ymgynghori ‘hawdd ei ddarllen’ ei gyhoeddi fydd yn galluogi plentyn neu berson ifanc i gyflwyno barn.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Mae’r gwaith hwn yn cefnogi’r erthyglau CCUHP canlynol:

**Erthygl 1 – Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.**

Bydd y cynigion yn cyflwyno system deg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc gydag ADY rhwng 0 – 25 oed.

**Erthygl 2 - Mae’r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo’i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae’n ei feddwl neu’n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.**

Bydd y cynigion allweddol yn gymwys i blant a phobl ifanc 0-25 oed, y pennwyd bod ganddynt ADY ac sydd mewn ysgol, lleoliad blynyddoedd cynnar neu sefydliad addysg bellach.

**Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon nac yn effeithiol. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

Bydd y gwaith hwn yn cyflwyno gwelliannau i’r cymorth a gaiff ei ddarparu i blant a phobl ifanc sydd ag ADY. Rydym ni’n cydnabod bod angen gwell gweithio rhyngddisgyblaethol ar draws sefydliadau. Rydym ni felly’n cynnig gosod dyletswydd ar asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth am asesu, cynllunio a chyflawni ymyriadau; gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth mewn CDU yn cael ei chyflenwi a byddwn yn cyhoeddi Cod Ymarfer diwygiedig i ddarparu arweiniad i weithwyr proffesiynol i gefnogi arferion gwaith rhwng gwahanol asiantaethau.

**Erthygl 4 - Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.**

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn rhoi’r hawl i blant oed ysgol wneud apêl AAA i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru eu hunain. Mae’r hawl hwn yn cael ei beilota yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ar hyn o bryd ond bydd yn weithredol yn awtomatig ar draws Cymru o fis Gorffennaf 2015.

Bydd y gwaith hwn yn gymorth ac yn hwb pellach i hawliau plant drwy roi hawl i apelio i blant neu bobl ifanc o oed ysgol neu iau sydd â CDU (neu eu rhieni) yn erbyn y TAAAC dan y fframwaith deddfwriaethol ADY newydd. Bydd hefyd yn estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr ôl-16 sydd ag ADY, hyd at 25 oed, sy’n derbyn neu sy’n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.

Mae’r gwaith hwn hefyd yn cynnig y bydd gan blant hawl i gael eu cynnwys yn y camau cynllunio er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, drwy’r Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

**Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i’w barn gael ei hystyried.**

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn rhoi’r hawl i blant oed ysgol wneud apêl AAA i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru eu hunain. Mae’r Mesur hefyd yn rhoi hawl i blant gael eu cyfeirio at wasanaeth eiriolaeth Annibynnol.

Mae’r gwaith hwn yn adeiladu ar yr hawliau hynny drwy gynnig bod yr holl CDUau yn cael eu cynllunio mewn modd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Hynny yw, bydd y plentyn, y bobl ifanc a’u rhieni yn cael eu cynnwys, ymgynghorir â hwy a gwrandewir ar eu barn o'r dechrau'n deg a chydol y broses asesu a chynllunio sydd ynghlwm wrth y CDU.

Bydd Papur Gwyn yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn cael ei gyhoeddi fel fersiwn addas i blant/hawdd ei darllen. Rydym ni wedi cynllunio digwyddiadau ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc i hwyluso eu mewnbwn ac i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed.

**Erthygl 13 - Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw’r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.**

Gweler Erthygl 12.

**Erthygl 20 - Rhaid i bobl sy’n parchu eu crefydd, eu diwylliant a’u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.**

O safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, byddai modd i CDU un ai ddisodli'r Cynllun Addysg Personol sydd ei angen ar hyn o bryd ar gyfer y dysgwyr hyn neu gyflawni'r un swyddogaeth â'r Cynllun hwnnw. Rydym yn cydnabod na fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal ADY ond credwn fod y ffaith bod cynnwys tebygol CDU a CAP presennol mor debyg, a'r

ffaith bod gan gynifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ADU, yn golygu ei bod hi'n synhwyrol i gyfuno'r cynlluniau hyn.

Rydym wedi edrych ar fodel yr Alban ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn cynnig mabwysiadu darpariaeth debyg yn y Bil lle y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu pob plentyn a pherson ifanc 'sy'n derbyn gofal' er mwyn pennu a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt. Cynigiwn y byddai awdurdodau lleol yn rhoi proses y CDU ar waith ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal er mwyn pennu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc hwnnw ADY. Byddai'r cynllun felly'n pennu unrhyw anghenion o'r fath.

**Erthygl 23 - Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.**

Bydd buddiolwyr y newid hwn yn cynnwys yr holl blant a phobl ifanc hynny y pennwyd bod ganddynt Anghenion Addysg Arbennig, yn ôl diffiniad Deddf Addysg 1996, neu Anhawster Dysgu a/neu Anabledd, yn ôl diffiniad Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**Erthygl 25 - Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.**

Gweler Erthygl 20. Byddai'r CDU yn ddogfen a gâi ei hadolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf, ac yn fwy aml pan fyddai angen er mwyn mynd i'r afael â newidiadau mewn amgylchiadau plentyn neu gynnydd annigonol o ran eu hamcanion.

**Erthygl 28 - Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.**

Bydd y cynigion hyn yn gymwys i'r holl ddysgwyr rhwng 0 – 25 oed er mwyn galluogi'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni eu potensial addysgol yn yr un modd â dysgwyr heb unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynigion yn cynrychioli symudiad ymwybodol i ffwrdd o'r system AAA sydd wedi dyddio a thuag at ddull mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o anghenion dysgu yn well.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Mae'r cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n cadarnhau fod yr Asesiad hwn o Effaith wedi'i gwblhau. Nid oes unrhyw wrthdaro gydag erthyglau CCUHP wedi'i ganfod.

| Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad |
| --- |
| Caiff yr Asesiad Effaith hwn ei gyhoeddi ar yr un pryd ac ochr yn ochr â'r ymgynghoriad papur Gwyn ar wefan Llywodraeth Cymru. |

| Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen |
| --- |
| Caiff yr asesiad effaith hwn ei adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad Papur Gwyn a chyn cyflwyno'r Bil. |

**<u>Cyllidebau</u>**

| | |
| --- | --- |
| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?**<br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | **Nac Oes** |
| **Rhowch unrhyw fanylion:**<br><br>Nid chafwyd unrhyw effaith ar y gyllideb o ganlyniad i'r asesiad effaith hwn. Caiff union natur y cynigion ar gyfer diwygio eu penderfynu yn dilyn yr ymgynghoriad Papur Gwyn. Caiff y costau'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig eu hegluro yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhelir cyn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig. | |

**Monitro ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | **2015** |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau'r CCUHP**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

WG16876

## Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

## Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

## Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

## Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

## Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

## Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

## Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

## Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

## Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

## Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

## Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

## Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

## Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

## Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

## Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

## Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

## Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

## Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

## Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

## Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

## Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

## Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

## Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

## Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

## Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

## Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

## Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

## Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

## Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

## Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

## Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

## Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

## Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

## Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

## Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

## Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

## Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

## Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.